## YMDRIN AG ADDYSGU UNED 1

- Mae gan Uned 1 nifer o nodweddion pwysig iawn:
    - mae'n ymdrin â chyfnod hir o Hanes gan ei bod yn cyflawni'r meini prawf cenedlaethol bod rhaid astudio Hanes yn eang ar safon UG ac Uwch
    - mae'n canolbwyntio'n llwyr ar asesu'r ddealltwriaeth o gysyniadau hanesyddol allweddol fel maent yn cael eu pennu yn Amcan Asesu 1
    - mae ei ffocws ar sgiliau yn hytrach nag ar gynnwys a ffeithiau
- Pwysleisir bod rhaid addysgu'r holl gynnwys ym mhob opsiwn, er y pwysleisir hefyd nad oes rhaid i'r cynnwys gael ei addysgu'n drylwyr.

### CYNGOR YNGHYLCH SUT I DRIN CYNNWYS ASTUDIAETH O GYFNOD 8 UNED 1

**Er mwyn rheoli cynnwys Astudiaeth o Gyfnod 8,** argymhellir bod yr athrawon yn anelu at ddefnyddio trosolwg cyffredinol o unigolion, digwyddiadau, termau a dyddiadau pwysig sy'n hanfodol i'r ddealltwriaeth o bob topig neu fater. Mae'n hanfodol pwysleisio y dylid ystyried yr Astudiaeth o Gyfnod fel cyfanwaith a ble bo'n briodol, dylid gwneud cysylltau a chysylltiadau rhwng ac ar draws nodweddion a phriodweddau.

Un ffordd bosibl o reoli cynnwys yr opsiwn hwn yw dechrau pob prif dopig gyda thrafodaeth. Mae dechrau a diweddu'r astudiaeth o bob topig neu fater gyda thrafodaethau neu ddadleuon yn helpu i ganolbwyntio'r sylw ar nodweddion arwyddocaol sy'n gysylltiedig â'r topig neu'r mater. Dylai hyn helpu'r dysgwyr i ganolbwyntio'u sylw ar beth sydd bwysicaf yn y cyfnod a astudir.

Dylai'r athrawon wneud defnydd o'r amrywiaeth o drafodaethau awgrymedig fel dull o drefnu eu hymagwedd at gynnwys y fanyleb, ond ni ddylent gymryd yn ganiataol na disgwyl y bydd cwestiynau arholiad yn cael eu gosod yn uniongyrchol neu eu seilio'n gyfan gwbl ar unrhyw rai o'r trafodaethau a awgrymir isod.

© Hawlfraint y Goron 2018

**Gellir rheoli cynnwys Astudiaeth o Gyfnod 8 drwy gynnal cyfres o drafodaethau neu ddadleuon.** Mae'r awgrymiadau'n cynnwys:

- Dadansoddwch brif achosion y gwrthdaro yn Ewrop yn y cyfnod 1890-1914.
- Gwerthuswch lwyddiant yr ymdrechion i gael cydweithrediad yn Ewrop yn y cyfnod 1890-1939.
- Dadansoddwch brif achosion y gwrthdaro yn Ewrop yn y cyfnod 1919-1939.
- Trafodwch effaith rheolaeth y Ffasgwyr ar yr Eidal yn y cyfnod 1922-1944.
- Trafodwch y rhesymau am y trawsnewid yn yr Almaen o ddemocratiaeth i unbennaeth yn y cyfnod 1918-1934.
- Dadansoddwch effaith y Natsïaid ar yr Almaen yn y cyfnod 1929-1945.
- Amlinellwch ym mha ffyrdd newidiodd rheolaeth Rwsia rhwng 1905 ac 1924.
- Trafodwch effaith rheolaeth y Comiwnyddion ar Rwsia yn y cyfnod 1924-1945.
- Dadansoddwch ym mha ffyrdd yr effeithiodd y Rhyfel Oer ar Ewrop ar ôl 1945.
- Gwerthuswch lwyddiant yr ymdrechion i gael cydweithrediad yn Ewrop yn y cyfnod 1945-1991.

© Hawlfraint y Goron 2018

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## GWEITHGAREDD 1: DEFNYDDIO DARLUNIAU I DRAFOD CYSYNIADAU

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Er mwyn cyflwyno a dadlau rhai o'r trafodaethau awgrymedig yn yr opsiwn hwn mae'n bosibl defnyddio darluniau i gyflwyno neu ddatblygu dealltwriaeth o rai o'r materion. Gellir cyflwyno, datblygu, dadlau neu adolygu'r rhan fwyaf o'r cynnwys penodedig sy'n cael ei drafod yn yr opsiwn hwn gan ddefnyddio darluniau. Gall y rhain fod yn gartwnau, paentiadau, printiau neu fapiau. Islaw rhoddir enghraifft sy'n canolbwyntio ar drafod y cysyniad o **bwysigrwydd.**

Teitl y cartŵn isod yw Clemenceau y Sugnwr Gwaed a chafodd ei gyhoeddi yn yr Almaen ym mis Gorffennaf 1919. Defnyddiwch y cartŵn i ddechrau trafodaeth ar y prif fygythiadau i sefydlogrwydd Gweriniaeth Weimar rhwng 1918 ac 1933.



Heb lwyddo i olrhain yr hawlfraint. A fyddech cystal â chysylltu â ni os chi yw deiliad yr hawlfraint.

© Hawlfraint y Goron 2018 

## GWEITHGAREDD 2: Rhowch radd Coch/Melyn/Gwyrdd (CMG) i'r nodweddion a'r priodweddau allweddol

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Ar gyfer pob un o'r trafodaethau awgrymedig a roddir uchod, dylai'r dysgwyr allu dadansoddi a gwerthuso amrywiaeth o'r nodweddion a'r priodweddau sy'n gysylltiedig â phob un. Er enghraifft, gellir ystyried y rhain am eu pwysigrwydd neu arwyddocâd ym mhob mater. I ddechrau'r broses hon, gallai'r dysgwyr ddefnyddio tri amlygwr lliw i roi seren Goch, Felen neu Werdd wrth ochr pob nodwedd.

Coch: Nodweddion sydd ag ond ychydig berthnasedd i'r ymholiad
Melyn: Nodweddion sydd â rhywfaint o berthnasedd i'r ymholiad
Gwyrdd: Nodweddion sy'n uniongyrchol berthnasol i'r ymholiad.

Byddai **gweithgareddau cysylltiedig** yn cynnwys defnyddio amlygwyr lliw i amlygu'r nodweddion a'r priodweddau hyn mewn perthynas ag:

**Amser** – ydyn nhw'n ffactorau tymor hir neu dymor byr?

**Persbectif** – ydyn nhw'n ffactorau unigol, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, neu'n gyfuniad o'r rhain?

Dyma enghraifft o drafodaeth awgrymedig:

**Dadansoddwch ym mha ffyrdd yr effeithiodd y Rhyfel Oer ar Ewrop ar ôl 1945**

Rhowch radd Coch / Melyn Gwyrdd (CMG) i'r nodweddion a'r priodweddau canlynol sy'n gysylltiedig â'r drafodaeth hon:

- Yalta a Potsdam
- Rhannu'r Almaen ar ôl y rhyfel
- Araith Llen Haearn Churchill
- Athrawiaeth Truman
- Cynllun Marshall
- Gwarchae Berlin
- Creu NATO

- Drwgdybiaeth a chamddealltwriaeth o'r ddwy ochr rhwng yr Unol Daleithiau a'r UGSS
- Diplomyddiaeth atomig
- Mwy o gydweithrediad economaidd yng Ngorllewin Ewrop
- Sefydlu Comecom
- Creu Wal Berlin

Nawr gwnewch y gweithgaredd eto ar gyfer unrhyw dri o'r trafodaethau awgrymedig eraill ar dudalen 2.

© Hawlfraint y Goron 2018

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## GWEITHGAREDD 3: SYMUD O HONIAD I DDADL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

**Gellir dilyn Gweithgaredd 2 gan un sy'n gofyn i'r dysgwyr gyfiawnhau eu penderfyniadau graddio Coch / Melyn / Gwyrdd (CMG). Bydd hyn yn helpu gyda'r ddealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng honiad a dadl.**

**Honiad:** gosodiad neu farn nad ydyw'n cael ei hategu gan reswm neu fanylion ychwanegol.

**Dadl:** honiad a gyfiawnheir gan reswm neu fwy o fanylion ac sy'n egluro neu'n cyfiawnhau rhywbeth ac yn gwrthddweud dadleuon eraill.

**Er mwyn helpu i symud o honiad i ddadl,** darllenwch y cwestiwn enghreifftiol isod ac yna ategwch bob un o'r honiadau er mwyn ei droi'n ddadl.

**Ai'r Rhyfel Byd Cyntaf fu'n bennaf gyfrifol am gwymp cyfundrefn y Tsariaid erbyn 1917?**

H1: Chwaraeodd y rhyfel ran hanfodol wrth bolareiddio'r anniddigrwydd yn erbyn cyfundrefn y Tsariaid yn Rwsia.

**Ategwch yr honiad hwn**

H2: Mater arall i'w ystyried yw'r twf mewn anniddigrwydd cymdeithasol ac economaidd yn Rwsia yn y degawdau o 1890 ymlaen.

**Ategwch yr honiad hwn**

H3: Gellir dadlau mai'r anfodlonrwydd gyda'r Tsar Nicolas II ar ôl iddo esgyn i'r orsedd yn 1894 oedd yn wirioneddol gyfrifol am gwymp cyfundrefn y Tsariaid.

**Ategwch yr honiad hwn**

© Hawlfraint y Goron 2018

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## GWEITHGAREDD 4: DATBLYGU DADL RESYMEGOL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Wrth ystyried y cysyniadau hanesyddol allweddol sy'n tanategu'r opsiwn hwn, disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos y gallu i ddadansoddi'r materion, gwerthuso'u pwysigrwydd ac yn gallu rhoi barn wedi'i chyfiawnhau sy'n cael ei ategu gan wybodaeth briodol dros y cyfnod a osodwyd. Yn aml, gellir gwneud hyn ar y cyd â'r ymagwedd trafodaethau awgrymedig a welir ar dudalen 2 o'r ddogfen hon. Gellir defnyddio pob enghraifft o'r trafodaethau awgrymedig a nodir i fynd i'r afael â chysyniadau hanesyddol penodol a hefyd i helpu dysgwyr i ddatblygu dadl resymegol.

Dyma rai enghreifftiau o sut gall athrawon a dysgwyr fynd ati i ddatblygu dadl resymegol wrth ateb cwestiwn gosod:

**I ba raddau ydych chi'n cytuno bod Mussolini wedi cadw rheolaeth yn yr Eidal rhwng 1924 ac 1943 drwy ddefnyddio braw yn bennaf?**

**Nodweddion allweddol:**

Y trosglwyddiad o ddemocratiaeth i unbennaeth

Sefydlu llywodraeth dotalitaraidd

Effaith rheolaeth y Ffasgwyr ar wleidyddiaeth a chymdeithas yn yr Eidal

**Tystiolaeth i ategu'r gosodiad:**

Newidiwyd y milisia Ffasgaidd i'r MSVN

Aflonyddu a gwyliadwriaeth gan yr heddlu

Creu hinsawdd o ofn

Defnyddio'r heddlu cyfrinachol (OVRA) a thribiwnlys arbennig ar gyfer troseddau gwleidyddol

**Ymdriniaeth o'r cyfnod:**

Trawsnewid y system wleidyddol rhwng 1922 ac 1926

Y gyfres o ddeddfau gormesol rhwng 1924 ac 1926

Agweddau o'r polisi cartref a thramor, 1922-1939

**Tystiolaeth i ddechrau dadl ynglŷn â'r gosodiad yn cynnwys gwerthuso arwyddocâd:**

Casgliad Mussolini o bwerau cyfreithiol

Enghreifftiau o bolisïau poblogaidd

Defnyddio propaganda llwyddiannus

Polisi tramor ymosodol

© Hawlfraint y Goron 2018 

Gan ddefnyddio'r enghraifft uchod, **llenwch y diagram sy'n dilyn** ar gyfer dau gwestiwn arall sydd wedi ymddangos ar gyn-bapurau arholiad ar gyfer yr opsiwn hwn.

**Nodweddion allweddol:**

**Tystiolaeth i ategu'r gosodiad:**

**Cwestiwn**

**Ymdriniaeth o'r cyfnod:**

**Tystiolaeth i ddechrau dadl ynglŷn â'r gosodiad:**

© Hawlfraint y Goron 2018 

## GWEITHGAREDD 5: CYSYLLTU CYNNWYS Â CHYSYNIADAU ALLWEDDOL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Mae Amcan Asesu 1 yn amlinellu nifer o gysyniadau sy'n tanategu'r astudiaeth o Hanes UG a Safon Uwch. Wrth ymateb i'w haseiniadau, mae dysgwyr yn aml yn methu â chanolbwyntio ar y cysyniadau allweddol yn eu hymatebion. Yn lle hynny maent yn rhoi gwybodaeth yn null naratif neu restr.

Mae'n bwysig bod y dysgwyr yn deall bod cynnwys Astudiaeth o Gyfnod 8 wedi'i gysylltu â'r cysyniadau hanesyddol allweddol sy'n tanategu AA1. Dangosir y cysyniadau allweddol hyn isod gydag enghreifftiau o sut gellir defnyddio cynnwys yr opsiwn hwn i enghreifftio'r cysyniadau penodol hyn.

Edrychwch ar y fanyleb rydych yn ei hastudio ar gyfer Astudiaeth o Gyfnod 8. **Nodwch ddwy nodwedd arall o gynnwys y fanyleb a all enghreifftio pob cysyniad allweddol.**

Cofiwch y gellir defnyddio'r cynnwys penodedig i enghreifftio mwy nag un cysyniad os yw'n briodol.

| Cysyniadau allweddol | Enghreifftiau o gynnwys i enghreifftio'r cysyniadau hyn | |
|---|---|---|
| Achos a chanlyniad | 1 | Y **prif resymau** dros sefydlu Cynghreiriau ac Ententes cyn 1914 |
| | 2 | |
| | 3 | |
| Newid a pharhad | 1 | Y **newid** yn ffawd Gweriniaeth Weimar yn y cyfnod 1918-1933 |
| | 2 | |
| | 3 | |
| Nodweddion sy'n debyg ac yn wahanol | 1 | **Cymhariaeth** o'r arweinyddiaeth wleidyddol yn Rwsia rhwng 1905 ac 1945 |
| | 2 | |
| | 3 | |
| Arwyddocâd a phwysigrwydd | 1 | **Arwyddocâd** y cydweithrediad economaidd yn y gydberthynas Ewropeaidd yn y cyfnod 1945-1991 |
| | 2 | |
| | 3 | |

© Hawlfraint y Goron 2018 

## GWEITHGAREDD 6: ADNABOD CYSYNIADAU HANESYDDOL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Bydd pob un o'r cwestiynau a osodir ar gyfer Uned 1 yn disgwyl i chi gyflwyno dadl dros gysyniad hanesyddol. I wneud hyn yn effeithiol dylech ddod yn grefftus wrth adnabod y cysyniad a'r gwerthusiad y mae'r cwestiwn yn gofyn amdanynt.

A allwch chi nodi'r cysyniad allweddol o'r cwestiynau enghreifftiol isod? Mae'r cyntaf wedi ei gwblhau a'i ddangos mewn **print trwm.**

- 'Cyfunoli amaethyddiaeth gafodd yr **effaith fwyaf** ar fywydau pobl Rwsia yn y cyfnod 1924-1945.' Trafodwch.
- I ba raddau ydych chi'n cytuno mai'r Rhyfel Oer oedd yn bennaf gyfrifol am y newid yn y gydberthynas yn Ewrop yn y cyfnod 1945-1991?
- Ai'r Almaen oedd yn bennaf gyfrifol am y cynnydd mewn tensiynau yn y gydberthynas ryngwladol yn y cyfnod 1890-1939?
- Pa mor llwyddiannus fu'r ymdrechion i leihau tensiynau yn Ewrop yn y cyfnod 1919-1938?
- I ba raddau y gellir dweud mai heriau economaidd oedd y broblem fwyaf difrifol oedd yn wynebu'r Almaen yn y cyfnod 1918-1945?
- 'Cafodd gorthrwm fwy o effaith ar fywydau pobl Rwsia nag unrhyw weithred arall gan y llywodraeth yn y cyfnod 1905-1945.' Trafodwch.

Gallwch hefyd ddefnyddio cyfleuster Banc Cwestiynau CBAC i ymarfer adnabod y cysyniadau allweddol mewn amrywiaeth o hen gwestiynau eraill. Mae hwn ar gael yn:

http://www.cbac.co.uk/question-bank/index.html?language_id=2

© Hawlfraint y Goron 2018 

## GWEITHGAREDD 7: GOSOD CWESTIYNAU CYSYNIADOL PRIODOL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Er mwyn deall natur ehangach Uned 1 mae'n bwysig bod athrawon a dysgwyr yn ymgyfarwyddo â sut mae cwestiynau cysyniadol yn cael eu ffurfio, sut gellir eu brawddegu a sut gellir eu haddasu yn ôl pa faes o'r astudiaeth o gyfnod a addysgir. Cynigir y cyngor canlynol:

- dylai'r cwestiwn fod yn **fater prif ffrwd** sydd wedi'i enwi neu ei gysylltu'n agos â'r manylion yn y fanyleb. Ceisiwch beidio â gosod cwestiynau ar rannau mân neu ddibwys o'r fanyleb.
- Rhaid bod yna **ddigon o sylwedd** i'r prif fater a osodir fel y bydd yn hybu dadl fywiog ar y topig a astudir. Peidiwch â gosod mater y mae'n hawdd i'r dysgwyr ei ddiystyru
- dylai'r cwestiwn a osodir ymdrin â **chyfnod sylweddol o amser**
- dylai fod modd i'r dysgwyr **gynnal dadl** drwy gydol yr ateb
- dylai'r cwestiwn ganiatáu i'r dysgwyr ddangos bod ganddynt **ddealltwriaeth o'r cysyniad hanesyddol perthnasol** yn y cwestiwn
- dylai'r cwestiwn gynnwys **gair neu eiriau allweddol** a fydd yn caniatáu i'r dysgwyr ffurfio barn gytbwys e.e. *I ba raddau y gellir dweud mai heriau economaidd oedd y broblem fwyaf difrifol oedd yn wynebu'r Almaen yn y cyfnod 1918-1945?*

Ffordd awgrymedig o ymdrin â'r agwedd hon ar ddysgu yw defnyddio'r rhestr wirio ganlynol pan osodir tasgau a chwestiynau ar gyfer y dysgwyr.

| Ydy'r cwestiwn a osodwyd yn... | YDY | NAC YDY |
|---|---|---|
| amlygu mater prif ffrwd? | | |
| hyrwyddo ymgysylltu â dadl? | | |
| ymdrin â chyfnod sylweddol o amser? | | |
| canolbwyntio ar gysyniad hanesyddol allweddol? | | |
| cynnwys gair gwerthusol? | | |

© Hawlfraint y Goron 2018

Ceisiwch osod eich cwestiynau cysyniadol eich hun ar gynnwys Astudiaeth o Gyfnod 8. A allwch chi osod cwestiynau cysyniadol priodol ar y meysydd cynnwys canlynol?

- Y rhesymau dros y pwysau cynyddol dros gael newid gwleidyddol / cymdeithasol ac economaidd yn Ewrop, 1945-1951
- Amrywiol ymatebion llywodraethau'r Almaen i wrthwynebiad rhwng 1918 ac 1945
- Cymhariaeth o arwyddocâd y gwahanol gytundebau rhyngwladol yn y cyfnod 1890-1939
- Effaith y newidiadau gwleidyddol ac economaidd ar yr Eidal, 1918-1945
- Pwysigrwydd y newid yn yr arweinyddiaeth wleidyddol yn Rwsia, 1917-1945

Unwaith y byddwch wedi gwneud hyn, ceisiwch roi gradd CMG i'r nodweddion allweddol sy'n gysylltiedig â'ch cwestiynau.

© Hawlfraint y Goron 2018

## GWEITHGAREDD 8: GWERTHUSO GWAITH YN NULL TRAETHAWD

Dyma ddwy enghraifft o atebion i gwestiynau Uned 1 a osodwyd yn arholiadau 2017.

- Allwch chi gymhwyso'r rhestr wirio ar dudalen 11 y ddogfen Cyflwyno cysyniadau hanesyddol yn Uned 1 at y traethodau hyn?
- Ystyriwch gryfderau a chyfyngiadau pob traethawd.
- Ystyriwch sut gallech wella pob un a pha gyngor allech chi ei roi i'r dysgwr a'i hysgrifennodd.

© Hawlfraint y Goron 2018

## Enghraifft batrymol 1

**I ba raddau y gellir dweud mai heriau economaidd oedd y broblem fwyaf difrifol oedd yn wynebu'r Almaen yn y cyfnod 1918-1945?**

Gellid ystyried mai'r problemau economaidd oedd yn wynebu'r Almaen oedd y broblem fwyaf difrifol yn wynebu'r Almaen. Yn yr Almaen roedd problem ddifrifol gyda gorchwyddiant, ac o ganlyniad datbrisiwyd cynilion pobl dros nos gan wthio'r Almaen i sefyllfa o ddiwasgedd economaidd. Gwaethygwyd hyn gan nad oedd cyflog pobl yn codi ac felly roedd miloedd o Almaenwyr yn y fagl dlodi ac yn ddigartref. Fodd bynnag, gellir dadlau mai problem tymor byr oedd hon gan i Hindenburg gyflwyno'r Rentenmark, sef arian cyfred sefydlog a helpodd i ddatrys y gorchwyddiant.

Dangosodd ateb Hindenburg y gellid datrys problemau economaidd yr Almaen a dangosodd hefyd bod problemau mwy difrifol yn wynebu'r Almaen yn y cyfnod hwn. Un enghraifft yw'r bygythiad gan Gomiwnyddiaeth yn y wlad. Gwaethygodd difrifoldeb hyn o ganlyniad i'r Putsch Kapp a oedd yn ymgyrch gan y Comiwnyddion i drosfeddiannu'r wlad. Roedd Comiwnyddiaeth yn fygythiad i rym a gallu'r Almaen i ddychwelyd at ei statws cyn 1914. Ond roedd y bygythiad comiwnyddol yn ddi-drefn ac yn wan fel arfer, fel y gwelir ym methiant y Putsch Kapp a thrwy lwyddiant cyfyngedig y grwpiau comiwnyddol fel SOPADE.

Ar y llaw arall, y prif reswm dros sawl ymgais i wrthryfela yn yr Almaen fel y Putsch Kapp oedd oherwydd statws economaidd gwael yr Almaen. Roedd diweithdra'n broblem gymdeithasol ac economaidd anferth a wynebai'r Almaen drwy gydol y cyfnod hwn. Er i Stresemann lwyddo i gryfhau statws economaidd yr Almaen yn sylweddol, ni fedrodd erioed ei ostwng yn is nag un filiwn gan ddangos sut oedd yn broblem barhaus. Golygai diffyg allbwn economaidd yr Almaen eu bod yn dioddef ac yn methu talu iawndal Cytundeb Versailles. Oherwydd hyn meddiannwyd y Rheindir gan Ffrainc a chreu her economaidd ychwanegol.

Ond roedd Cytundeb Versailles yn broblem gymdeithasol fawr a wynebwyd gan yr Almaen yn y cyfnod hwn. Golygai'r cymal euogrwydd bod yr Almaen yn cael y bai am y Rhyfel Byd Cyntaf gan niweidio ei henw da a hefyd cyfyngodd y Cytundeb ar allu'r Almaen i adlamu'n sylweddol. Ynghyd â mynd â 10% o dir yr Almaen, a'r ffaith fod 15% o'i phoblogaeth yn creu heriau cymdeithasol a gwleidyddol mawr yn yr Almaen, mae hyn yn golygu nad yr heriau economaidd oedd yr her fwyaf.

Ar y llaw arall, roedd yr Almaen yn methu â chyflawni awtarchiaeth economaidd a oedd yn her economaidd fawr a achosodd broblemau difrifol i'r Almaen ar draws y genedl. Nod Hitler oedd creu cenedl hunangynhaliol, ond ni fu'n llwyddiannus. O ganlyniad roedd yr Almaen yn dra dibynnol ar wledydd eraill am nwyddau a, gan fod ei chydberthynas â gwledydd eraill yn wan, roedd yr Almaen yn fregus ac yn ansefydlog yn economaidd. Fodd bynnag byddai rhai yn dweud bod yr ymgais i greu awtarchiaeth yn llwyddiannus yn enwedig yn ystod ymdrech y rhyfel. Llwyddodd Hitler i ostwng diweithdra i'r lefel isaf erioed oherwydd ei gynlluniau a fu'n llwyddiannus i raddau helaeth fel gweithio drwy

lawenydd a'r KKK. Datrysodd y rhain broblemau economaidd yr Almaen ac er na lwyddodd erioed i ddod yn wladwriaeth awtarchaidd, daeth yn llewyrchus iawn ac roedd yn un o bwerau diwydiannol mwyaf y byd dan reolaeth Hitler ac yn ystod y rhyfel. Fodd bynnag cyflawnodd Hitler hyn drwy ddefnyddio llawer o ddulliau anghyfreithlon fel peidio â chynnwys yr Iddewon yn yr ystadegau diweithdra, anfon dynion di-briod dan 25 i undeb y gweithwyr a thrin gweithwyr yn greulon er mwyn cynyddu allbwn er enghraifft gweithio mewn ofn yr SS.

Her arall y gellid ei hystyried fel y broblem fwyaf difrifol a wynebai'r Almaen yn y cyfnod rhwng 1918 ac 1945 oedd ansefydlogrwydd gwleidyddol. Pan ffurfiwyd llywodraeth Weimar roedd llawer o bobl yn anghymeradwyo ac achosodd hyn broblemau difrifol ledled yr Almaen. Amlygwyd yr ansefydlogrwydd gwleidyddol hwn gan y pedwar ymgais i ddymchwel llywodraeth Weimar. Dangosodd y rhain bod anghymeradwyaeth ac ansefydlogrwydd eang yn y genedl gan fod llywodraeth Weimar yn cael ei hystyried yn wan. Ond nid oedd yr ansefydlogrwydd gwleidyddol yn bresennol yn ystod teyrnasiad y blaid Natsïaidd gan iddynt ennill mwyafrif clir ymhen amser yn yr etholiad a bu Hitler yn hynod llwyddiannus yn distewi ei wrthwynebwyr gwleidyddol gan honni nad oedd heriau gwleidyddol yn fygythiad difrifol yn ystod y cyfnod cyfan hwn. Fodd bynnag creodd Hitler y sefydlogrwydd gwleidyddol hwn drwy ofn a dulliau anghyfreithlon, fel pan fyddai'r Gestapo'n curo'i wrthwynebwyr.

At ei gilydd roedd yr heriau economaidd yn broblem ddifrifol iawn a wynebai'r Almaen. Achosodd gorchwyddiant, diweithdra a Chwymp Wall Street broblemau difrifol yn yr Almaen gan iddi gael ei hadeiladu ar fuddsoddiad estron a golygai hyn fod perygl parhaus o broblemau economaidd. Fodd bynnag, roedd llawer o broblemau eraill yn wynebu'r Almaen rhwng 1918 ac 1945 fel ansefydlogrwydd gwleidyddol y llywodraeth Weimar. Roedd y bygythiad gan Gomiwnyddiaeth hefyd yn broblem fawr ynghyd â cholli'r ddau Ryfel Byd. Daeth hyn â llawer o ansefydlogrwydd i'r Almaen a chreu llawer o broblemau.

## Enghraifft batrymol 2

**I ba raddau ydych chi'n cytuno mai'r Rhyfel Oer oedd yn bennaf gyfrifol am y newid yn y gydberthynas yn Ewrop yn y cyfnod 1945–1991?**

Roedd y Rhyfel Oer yn gyfnod o wrthdaro ffyrnig, yn bennaf rhwng yr Unol Daleithiau a'r UGSS a gychwynnodd ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Roedd yn gyfrifol am lawer o newid yn y gydberthynas yn Ewrop rhwng 1945 ac 1991. Mewn llawer o ffyrdd, roedd Ewrop yn faes brwydr ar gyfer yr Unol Daleithiau a'r UGS – yn drosiadol – oherwydd ni ddigwyddodd unrhyw drais na rhyfel rhwng y pwerau mawrion mewn gwirionedd. Gellir ystyried mai'r Rhyfel Oer oedd yn bennaf gyfrifol am y newid yn y gydberthynas yn Ewrop oherwydd bod rhaniad dwyrain-gorllewin wedi digwydd – 'llen haearn' fel y'i disgrifiwyd gan Winston Churchill.

Roedd gwledydd Dwyrain Ewrop mewn trallod ar ôl yr Ail Ryfel Byd ac roeddent naill ai'n rhy wan i atal cael eu meddiannu'n ddirgel neu fe gofleidion nhw hyn a chroesawu'r cyfundrefnau comiwnyddol. Dioddefodd y Gorllewin golledion aruthrol hefyd ond gwnaethant barhau i fod yn gyfalafol fel y buont erioed. Effeithiodd hyn ar y gydberthynas oherwydd bod y Gorllewin yn derbyn cyllid gan yr Unol Daleithiau ar ôl Athrawiaeth Truman a Chynllun Marshall yn 1847, tra bod y Dwyrain yn cael ei ariannu gan COMECON. Fodd bynnag mae apêl Comiwnyddiaeth yn ddealladwy o ystyried y sefyllfa ar ôl y rhyfel a gellid dadlau mai dilyniant naturiol o strategaethau economaidd ydoedd. Ond gellir dadlau yn erbyn hyn gan i'r Comiwnyddion mewn gwledydd fel Romania ymuno â chlymblaid a chynllwynio'n wleidyddol ac yna, gwrthryfela ar eu ffordd i ennill rheolaeth dros eu gwledydd. I raddau, nid y Rhyfel Oer oedd hwn ond yn hytrach, anfedrusrwydd y llywodraethau i ofyn am gymorth pan oedd ei angen. Gwrthododd rhai gwledydd Gymorth Marshall cyn iddynt gael eu llyncu gan gomiwnyddiaeth yr UGSS. Bu bron iawn i Ffrainc a Sweden hyd yn oed droi'n Gomiwnyddol ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Er gwaethaf hyn, achosodd y Rhyfel Oer raniad mwy arwyddocaol nag a awgrymir gan ffiniau daearyddol, er enghraifft, Awyrgludiad Berlin rhwng 1948 ac 1949 oherwydd y dadleuon dros rannu'r Almaen.

Roedd yn amlwg mai'r Rhyfel Oer oedd yn bennaf gyfrifol am y newid yn y gydberthynas yn Ewrop ond mae yna esboniadau posibl eraill fel y cyfeillgarwch newydd ar ôl yr Ail Ryfel Byd sydd wedi'i gysylltu â'r tensiynau cynyddol yn Ewrop yn yr 1960au. Yn yr 1960au, sefydlodd Arlywydd Ffrainc, De Gaulle, sefydliad o'r enw'r CEE neu'r Gymuned Economaidd Ewropeaidd. Creodd hyn gydberthynas gryfach o fewn gwledydd Gorllewin Ewrop oherwydd cytundebau economaidd a chysylltiadau masnachu. Fodd bynnag nid oedd y DU ynghlwm i gychwyn. Yn ôl De Gaulle, roedd Prydain wedi mynd yn rhy agos i'r Americanwyr – ar un adeg galwodd y DU yn 'bypedau'r Americanwyr.' Mae'n aneglur p'un ai fod hwn yn rheswm cyfiawn neu p'un ai roedd yn genfigennus. Creodd hyn ddynameg newydd yn y gydberthynas o fewn Ewrop. Fodd bynnag, roedd Gorllewin Ewrop yn gefnogol i'w gilydd yn barod oherwydd y Rhyfel Oer. Roedd y Gyfundrefn Cytundeb Gogledd Iwerydd (NATO) yn golygu, pe byddai ymosodiad ar un wlad, byddai'r lleill yn helpu. Sefydlwyd sefydliad tebyg o'r enw Cytundeb Warsaw yn yr 1950au gan yr UGSS. Yr un oedd

© Hawlfraint y Goron 2018 

ei egwyddor. Creodd hyn gydberthynas agosach rhwng y gwledydd o fewn eu grwpiau priodol ond hefyd creodd raniad ychwanegol rhwng y Dwyrain a'r Gorllewin. Heb ystyried hyn, ni fu'r ffaith fod y CEE wedi gwahardd Prydain yn fuddiol i'r gydberthynas yn y bloc gorllewinol a bu'n rhaid aros tan yr 1970au, ar ôl i De Gaulle ymddiswyddo, cyn i'r DU gael ymuno â'r CEE.

At ei gilydd achosodd y CEE newid yn y gydberthynas ac roedd hyn yn gyfrifoldeb i raddau ond cafodd y Rhyfel Oer ddylanwad llawer mwy. Mae'r Rhyfel Oer yn gysylltiedig ag arweinydd bob gwlad yn Ewrop. Yn ôl y ddadl hon, roedd arweinwyr unigol pob gwlad yn gyfrifol am y newid yn y gydberthynas. Yn yr 1980au, roedd gan yr UGSS arweinydd newydd – Gorbachev. Roedd hwn yn poeni am wario ar arfau oherwydd y ras arfau ac roedd eisiau arbed arian er mwyn medru rhoi mwy i mewn i gymdeithas. Roedd eisiau heddwch rhwng y gwledydd ac roedd yn uchel ei barch gan arweinydd y DU, Thatcher. O ganlyniad, bu lleddfu ar y tensiwn rhwng y Dwyrain a'r Gorllewin. Fodd bynnag, cafodd Gorbachev ei ddymchwel a chwympodd yr UGSS gydag ef, gan olygu bod y Rhyfel Oer wedi creu mwy o densiwn yn ei sgil. Tra bod Gorbachev wedi gwella'r gydberthynas â'r gorllewin, perodd y Rhyfel Oer iddi waethygu. Gallai cwymp yr UGSS fod wedi arwain i ddiwedd y Rhyfel Oer ond ymgododd gwrthdaro newydd o'i ludw. Gwaethygodd y gydberthynas mewn rhai rhannau o Ddwyrain Ewrop fel Iwgoslafia ble cychwynnodd glanhau ethnig. Mae hyn yn gysylltiedig â chwymp yr UGSS gan na allent gadw trefn bellach.

I gloi, y Rhyfel Oer oedd yn bennaf gyfrifol am y newid yn y gydberthynas yn Ewrop oherwydd creodd y rhaniad Dwyrain-Gorllewin a fu'n fwrn ar Ewrop drwy gydol y cyfnod hwn. Roedd y CEE yn rhannol gyfrifol am y newid yn y gydberthynas, ynghyd ag arweinwyr unigol fel De Gaulle a Gorbachev, ond mae'r ddau hyn yn ddibwys o gymharu â'r grym dynamig a achoswyd gan Ryfel Oer yr Unol Daleithiau a'r UGSS

© Hawlfraint y Goron 2018